



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder


Ministry
of Justice

Cynllun Iaith Gymraeg Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd
y Gymraeg am y flwyddyn 2017–18

Medi 2018

Amddiffyn a hyrwyddo egwyddorion cyfiawnder yng Nghymru



Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg am y flwyddyn 2017–18

Medi 2018

Cyflwyniad

Adroddiad yw hwn am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018 ac mae'n hunanasesiad o sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) wedi parhau i gyflawni ei hymrwymiaidau o dan ei Chynllun Iaith Gymraeg (Cynllun yr MoJ) yn ystod y cyfnod hwn. Mae Cynllun yr MoJ yn egluro sut mae'r MoJ yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 fod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd y dylid eu trin ar sail gyfartal, wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Cefndir

Cyhoeddwyd Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf yr MoJ ym Mawrth 2010. Er ei fod y tu allan i gyfnod yr adroddiad hwn, rydym erbyn hyn wedi cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yr MoJ ym Mehefin 2018, yn dilyn ei gymeradwyo gan y Comisiynydd Iaith ar 9 Ebrill 2018.

Mae Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yr MoJ yn egluro sut y byddir yn parhau i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Nod y Cynllun yw sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 drwy alluogi pawb sy'n cael gwasanaeth gan yr MoJ yng Nghymru, neu sy'n cysylltu â ni, i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl eu dewis personol.

Cynllun corfforaethol yw Cynllun yr MoJ sy'n berthnasol i'r meysydd busnes a'r timau ym mhencadlys corfforaethol yr MoJ yn cynnwys ein swyddogaethau ym maes polisi, cyllid, masnach, caffael, adnoddau dynol, ystadau, TG a chyfathrebu.

Mae'r cynllun gweithredu sy'n mynd law yn llaw â Chynllun 2010 yr MoJ yn egluro'r prif weithrediadau y disgwyliad i'r MoJ eu rhoi ar waith yn ystod cyfnod cychwynnol o dair blynedd a sut yr oeddem yn bwriadu gwneud hynny. Mae nifer o'r gweithrediadau penodol hyn wedi eu cyflawni (ac adroddwyd arnynt mewn adroddiadau monitro blynyddol blaenorol) ac rydym wedi parhau i sicrhau cynnydd yn achos y gweithrediadau a oedd o natur gwaith yn mynd rhagddo. Mae'r gweithrediadau nawr wedi eu diweddarau yng Nghynllun 2018 yr MoJ i adlewyrchu'r cynnydd yr ydym yn bwriadu ei wneud mewn tri maes corfforaethol: datblygu polisi, recriwtio a chyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd.

I ddibenion cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, ar yr 'hen' gynllun cyntaf (2010) yr ydym yn adrodd. Y flwyddyn nesaf byddwn yn adrodd ar flwyddyn gyntaf gweithrediad ein Cynllun 'newydd' (2018), er y bydd rhai gweithrediadau tebyg, wrth gwrs, yn gyffredin i'r ddau gynllun.

Crynodeb

Mae cyflawniadau 2017–18 yn cynnwys:

- Datblygu a chyfieithu ffurflenni a chanllawiau amlosgi diwygiedig i sicrhau eu bod oll ar gael yn Gymraeg erbyn cyflwyno Rheoliadau Amlosgi (Diwygiadau) (Cymru a Lloegr) 2017 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2018.
- Dylunio, datblygu a gwella ein [Cynllun Iaith Gymraeg \(2018\)](#) corfforaethol diwygiedig drafft drwy gyswllt parhaus â rhanddeiliaid allweddol (a chyhoeddi ein Cynllun terfynol newydd ym Mehefin 2018 drwy Ddatganiad i'r Wasg yn dilyn ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 9 Ebrill 2018).

- Sicrhau bod ymgynghoriadau allweddol yr MoJ ar gael yn Gymraeg ar Hwb Ymgynghori'r MoJ ar ein tudalennau 'corfforaethol' GOV.UK ac ar dudalennau 'prif lif' GOV.UK
- GLITEM yn cyhoeddi ei Gynllun Iaith Gymraeg drafft ar gyfer y cyfnod 2018-2021 (ac yn cyhoeddi ei Gynllun terfynol newydd ym Mai 2018).
- Tîm Datganoli Cyfiawnder yr MoJ yn gweithio i gytuno ar Goncordat rhwng yr MoJ a Llywodraeth Cymru sy'n egluro'r egwyddorion a'r disgwyliadau sy'n sail i'r berthynas waith rhwng y ddau sefydliad.
- Grŵp lletach o Gydlynwyr Iaith Gymraeg yr MoJ, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn ymwneud â holl rychwant meysydd busnes yr MoJ, yn parhau i fod yn weithredol.
- Y Tîm Polisi Dioddefwyr a Thystion yn rhoi grantiau o £4.0m yng Nghymru i gyflenwi gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr troseddau.
- Mae Pwyllgor Hyfforddiant Coleg Barnwrol Cymru wedi cynhyrchu bwletinau yn Gymraeg (a Saesneg) sy'n asesu datblygiad cyfraith ddatganoledig.
- Dyfarnwyd grant o £203k gan HMPPS i'r Ymddiriedolaeth Anabledau i gefnogi unigolion ag anafiadau i'w hymennydd mewn carchardai i ddynion yng Nghymru a Lloegr a Safleoedd Cymeradwyedig yng Nghymru.
- I gefnogi tystiolaeth gynnar o lwyddiant ein Prawf Effaith ar yr Iaith Gymraeg a gyflwynwyd yn ddiweddar, cyfieithodd Uned Iaith Gymraeg GLITEM 24 dogfen bolisi corfforaethol.

Cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu

Darperir diweddariad isod ar ein cynnydd wrth gyflawni ein gweithrediadau cyfredol, gan ddangos sut mae'r MoJ wedi bodloni, ac yn parhau i fodloni, pob un o'r pwyntiau gweithredu fel y nodir yn ei Gynllun Iaith Gymraeg.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr MoJ's am y cyfnod 2016 -17

Mewn ymateb i Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 -17, gwnaeth y Comisiynydd Iaith nifer o sylwadau a gofynnodd am wybodaeth bellach am rai agweddau ar ein gwaith. Darparwyd yr wybodaeth ychwanegol hon eisoes i'r Comisiynydd Iaith, ym mis Tachwedd 2017, a chan hynny nis ailadroddir yn yr adroddiad hwn.

1. Datblygu polisi a Gweithredu

Meini prawf llwyddiant:

Dylai polisiâu, mentrau a gwasanaethau fod yn gyson ag ymrwymïadau a wneir yng Nghynllun yr MoJ.

Ymgynghoriadau'r MoJ

Yn ystod y cyfnod adrodd 2017–18 ymgwymerodd yr MoJ â nifer o ymgynghoriadau yn Gymraeg a chyhoeddodd ymatebion yn Gymraeg fel a ganlyn:

Sut ddylid gosod y gyfradd ddisgownt anafiadau personol yn y dyfodol:

Cyfieithwyd crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriad (Medi 2017) i'r Gymraeg ac mae ar gael ar hwb ymgynghori corfforaethol yr MoJ a gwefan GOV.UK.

Ymateb i'r ymgynghoriad ar droseddau gyrru a chosbau mewn perthynas ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol: Cyfieithwyd yr ymateb i'r ymgynghoriad (Hydref 2017) ac mae ar gael ar hwb ymgynghori corfforaethol yr MoJ.

Y dulliau a'r drefn lywodraethu ar gyfer goruchwyllo recriwtio ac ymddygiad Ynadon Heddwch: Newidiadau arfaethedig i drefniadaeth, rheolaeth a swyddogaethau Pwyllgorau Ymgynghorol Ynadon Heddwch. Cyfieithwyd y ddogfen ymgynghori ar y cyd rhwng GLITEM a'r MoJ (Hydref 2017) a'r ymateb i'r ymgynghoriad (Mawrth 2018) yn llawn i'r Gymraeg ac maent ar gael ar wefan GOV.UK.

Dyfarniadau Trwy Ddiffyg Llysoedd Sirol: Ymgynghoriad ar sicrhau bod y broses yn gweithio'n deg, ar gyfer credydwy'r a dyledwyr fel ei gilydd. Cyfieithwyd y ddogfen ymgynghori (Rhagfyr 2017) i'r Gymraeg ac mae ar gael ar hwb ymgynghori corfforaethol yr MoJ.

Parod at y dyfodol: trawsnewid ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd: Cyfieithwyd fersiwn fyrrach y ddogfen ymgynghori (Ionawr 2018) i'r Gymraeg ac mae ar gael ar hwb ymgynghori corfforaethol yr MoJ.

Trawsnewid yr ymateb i gam-drin domestig: Ymgais oedd yr ymgynghoriad hwn i fynd i'r afael â cham-drin domestig ar bob cam, o atal i adsefydlu, ac roedd yn ymgynghoriad ar y cyd rhwng y Swyddfa Gartref a'r MoJ (Mawrth 2018). Fe'i cyfieithwyd i'r Gymraeg ac mae ar gael ar hwb ymgynghori corfforaethol yr MoJ.

Diwygio Cynllun Ffioedd Graddedig Eiriolwyr: Cyhoeddwyd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar gynigion cyllido ar gyfer Diwygio Cynllun Ffioedd Graddedig Eiriolwyr, sy'n talu eiriolwyr am amddiffyn cleientiaid yn Llys y Goron, (Ebrill 2018) ar hwb ymgynghori corfforaethol yr MoJ.

Gwasanaeth Cyfieithu a Chyfieithu ar y pryd

Ym mis Mawrth 2018 adolygodd yr MoJ y 'Canllaw i ystadegau ynghylch gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd'. Gellir gweld y cyhoeddiad hwnnw yma:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/695396/language-interpreter-translation-services-statistics-guide.pdf

Yn dilyn cwyn gan y Comisiynydd Iaith, mae'r categori ieithyddol yn y cyhoeddiad a elwid gynt yn "ieithoedd prin", ac a oedd yn cynnwys y Gymraeg, wedi newid. Byddwn nawr yn cyfeirio at y categori hwn yn y cyhoeddiad fel "ieithoedd heb Ddiploma Mewn Cyfieithu ar y Pryd ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus (DPSI)" neu "ieithoedd heb DPSI", yn y deunydd esboniadol ac yn nhablau'r cyhoeddiad. Gwneir hynny i adlewyrchu'n gywir bwysigrwydd statws yr iaith Gymraeg fel iaith y caniateir iddi ofynion cymwysterau eithriadol.

Yn unol â chais penodol gan Swyddfa'r Comisiynydd Iaith, yn ystod 2017-18 derbyniodd yr MoJ gyfanswm o 16 cais Cymraeg drwy Gontract Ieithoedd yr MoJ ar gyfer cyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Cynhwysir ystadegau ar y defnydd o wasanaeth cyfieithu ar y pryd a chyfieithwyr yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn yr Ystadegau Llysoedd Troseddol a gyhoeddir yn chwarterol ac sydd ar gael ar wefan GOV.UK.

Concordat

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn bydd tîm Datganoli Cyfiawnder yr MoJ wedi bod yn gweithio i gytuno ar Goncordat rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru. Mae'r Concordat yn egluro'r egwyddorion a'r disgwyliadau sy'n sail i'r berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a'r MoJ. Mae'n ymdrin â'r trefniadau ar gyfer ymgynghori a chydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a'r MoJ, yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth (a thelerau rhannu gwybodaeth), effeithiau ar gyfiawnder, mynediad at wasanaethau, datrys anghydfod ac adolygu cysylltiadau. Cyhoeddwyd y Concordat ar 25 Mehefin 2018 ac mae'n cynrychioli cam pwysig ymlaen ar gyfer gwella trefniadau gweithio, cysylltiadau rhynglywodraethol, a deilliannau cyfiawnder ar gyfer y ddwy weinyddiaeth.

Cynlluniau Iaith Gymraeg Cyrff Cyflenwi'r MoJ

Rydym yn adran weinidogaethol, a gefnogir gan bum Asiantaeth Weithredol sy'n gyfrifol am gyflenwi'r gyfran helaethaf o'n busnes a'n gwasanaethau i'r cyhoedd: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG), a'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA). Mae gan bob un o'r cyrff cyflenwi hyn eu Cynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain. Rhoir crynodeb byr o'u cynnydd isod.

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

Cyhoeddwyd Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg GLITEM am y cyfnod 2015-17 ym Mehefin 2017. Dyma'r prif gyflawniadau:

- Datblygu cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein a'i wneud yn rhan o'r dysgu mandadol ar gyfer yr holl staff yng Nghymru
- Darparu sawl plattform Cymraeg ar-lein ar gyfer cwsmeriaid sy'n dymuno cofnodi ple ar-lein: <https://www.gov.uk/cofnodi-ple-ar-gyfer-trosedd-traffig>
- Gweithio gydag awdurdodau erlyn i sicrhau cynnwys dewisiadau iaith ar yr Hysbysiadau Gweithdrefn Un Ynad newydd
- Adfer y gallu i Dalu Dirwy / Cynhaliaeth yn ddigidol drwy gyfrwng y Gymraeg ar GOV.UK

Ers hynny mae GLITEM wedi cyhoeddi ei Gynllun Iaith Gymraeg newydd, yn dilyn ei gymeradwyo gan y Comisiynydd Iaith. Mae'r Cynllun diwygiedig yn ystyried cynnydd GLITEM er cyhoeddi ei gynllun cyntaf yn 2013 a'r newid sydd nawr yn mynd rhagddo ar draws y system gyfiawnder, wrth i'w diwygiadau gyflymu a gyda chyflwyno rhagor o wasanaethau digidol.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

Cyflwynodd HMPPS ei Adroddiad Monitro Blynyddol am y flwyddyn 2016-17 i'r Comisiynydd Iaith ym mis Ionawr 2018. Mae'r cynnydd allweddol yn cynnwys:

- Rhoir ystyriaeth lawn i'r Iaith Gymraeg yn natblygiad a gweithrediad hyfforddiant gweithredol drwy hyfforddiant mandadol ar Ddadansoddi Cydraddoldeb.
- Mae Strategaeth Gydraddoldeb newydd HMPPS ar gyfer 2018-2020 yn darparu strwythurau adrodd ar gyfer yr agenda gydraddoldeb ehangach; rhoir ystyriaeth lawn i'r Cynllun Iaith Gymraeg wrth fonitro'r strategaeth, wrth adrodd arni ac wrth ymgymryd â'i llywodraethiant.
- Mae disgwyliad y cofnodir dewis iaith (yn cynnwys y Gymraeg) cyn dedfrydu, wrth gyrraedd y carchar neu ar ddechrau dedfryd gymunedol neu ymyriad yn y gymuned.
- Cyflwynwyd casglu data a monitro mewn perthynas â'r Gymraeg ar draws HMPPS.
- Mae gan HMPPS Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Uned Iaith Gymraeg GLITEM.
- Gall staff ddatgan mai Cymry ydynt o ran cenedl ar y Plattform Gweithredu Unigol – y system adnoddau dynol newydd ar gyfer HMPPS.

Yng Nghymru:

- Mae pob arwydd a godir gan HMPPS ac a welir gan y cyhoedd yn ddwyieithog, ac mae'r cynnwys Cymraeg a Saesneg yr un mor amlwg ac yn dilyn yr un fformat.
- Mae ym mhob carchar dechnoleg yn yr ystafelloedd neu ar y landin sydd ar gael yn llawn yn y Gymraeg.
- Mae llyfrgelloedd a chanolfannau ymwelwyr carchardai yn darparu cyflenwad da o ddeunydd Cymraeg.
- Mae'r rhan fwyaf o garchardai Cymru wedi sefydlu cymdeithasau a grwpiau Cymraeg i gwrdd ag anghenion eu poblogaeth.
- Mae rhwydwaith o 12 o swyddogion sy'n arwain ym maes y Gymraeg a chydaddoldeb ar draws HMPPS.

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Cyhoeddwyd Adroddiad Monitro Blynyddol yr LAA ym mis Hydref 2017. Mae contractau'r LAA gyda darparwyr yn cynnwys cymalau penodol ynghylch darparu gwasanaethau Cymraeg i gleientiaid Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru fel rhywbeth y gellir ei ddisgwyl. Mae'r LAA wedi rhedeg prosesau tendro ar gyfer contractau cymorth cyfreithiol sifil a throseddol yn ystod cyfnod yr adolygiad ac mae'n parhau i nodi'r gofyniad hwn mewn cytundebau cymorth cyfreithiol ar gyfer darparu cyngor i'r cyhoedd. Mae pob deunydd a gyhoeddir gan yr LAA, ac a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys Adroddiad Blynyddol yr LAA ac Adroddiad y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Disgwylir y bydd Cynllun Iaith Gymraeg yr OPG yn cael ei gymeradwyo'n fuan (Haf 2018). Mae'r OPG yn bwriadu ymgymryd ag ymchwil yng Nghymru er mwyn deall anghenion defnyddwyr yn well wrth ddarparu eu gwasanaethau. Eleni byddwn yn ehangu'r digwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid, a gynhelir fel arfer yn Llundain, ac mae digwyddiadau'n cael eu trefnu ar gyfer yr hydref yng Nghymru, Llundain a Gogledd Lloegr.

Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol

Mae'r CICA yn parhau i gynnig y gwasanaethau Cymraeg a nodir yn ei Gynllun Iaith Gymraeg a'i Adroddiad Monitro blynyddol, dyddiedig Awst 2017. Ymroes y CICA i hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg drwy'r swyddfa er mwyn atgoffa cydweithwyr o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymraeg ac ymgeiswyr sy'n Gymry. Hyrwyddodd y CICA y Cynllun yn ogystal ymysg cydweithwyr yn eu Canolfan Gyswllt Cwsmer sydd yn y rheng flaen o ran cyswllt gydag ymgeiswyr ac sy'n fwyaf tebygol o fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymgeiswyr sy'n dymuno cyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg.

2. Recriwtio

Meini prawf llwyddiant:

- a) Mae system effeithiol i fonitro recriwtio staff yr MoJ a phenodi barnwyr i sicrhau bod y Weinyddiaeth yn cwrdd â'r ymrwymadau yn ei Chynllun Iaith Gymraeg.
- b) Cynhelir achosion llys mewn modd effeithiol yn Gymraeg pan fo gofyn am hynny.
- c) Ymdrin yn gyson â'r Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.

a) Staff

Meini prawf llwyddiant: a) Mae system effeithiol i fonitro recriwtio staff yr MoJ a phenodi barnwyr i sicrhau bod y Weinyddiaeth yn cwrdd â'r ymrwymadau yn ei Chynllun Iaith Gymraeg.

Mae system e-recriwtio **World Careers Network (WCN)** yn awr yn gwbl weithredol. Drwy WCN, rydym wedi hysbysebu 190 swydd lle crybwyllir y cynllun iaith ac y mae'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol ar eu cyfer yn ôl y gofynion ieithyddol.

b) Achosion llys

Meini prawf llwyddiant: b) Cynhelir achosion llys mewn modd effeithiol yn Gymraeg pan fo gofyn am hynny.

Mae adnabod a recriwtio ynadon a barnwyr sy'n siarad Cymraeg yn galluogi cynnal achosion llys yn Gymraeg pan fo gofyn am hynny. Yn ystod blwyddyn yr adroddiad, cofnododd GLITEM 409 achos lle defnyddiwyd y Gymraeg.

c) Y Farnwriaeth

Meini prawf llwyddiant: c) Ymdrin yn gyson â'r Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.

Cwblhawyd ac adroddwyd ar 29 ymarferiad dethol barnwrol yn 2017–18. Mae'r maes busnes a'r farnwriaeth yn adnabod gofynion swyddi mewn perthynas â'r Gymraeg, ac mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn eu hasesu. Ymhlith yr ymarferiadau dethol hyn:

- Roedd un ymarferiad dethol ar gyfer **Barnwr Rhanbarth (Sifil)** yn profi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn cynnwys trefniadau datganoli. Yn ogystal roedd un swydd lle'r oedd y Gymraeg yn ofynnol. Lansiwyd yr ymarferiad cenedlaethol ar 20 Mehefin 2017 gyda 100.5 swydd, ac yr oedd y Gymraeg yn ofynnol ar gyfer un ohonynt. Bu 14 o'r ymgeiswyr a ddetholwyd yn llwyddiannus o ran y gofynion gwybodaeth ar gyfer swyddi yng Nghymru, gyda thri ohonynt yn addas ar gyfer y swydd lle'r oedd y Gymraeg yn ofynnol.

Adnabu'r ymarferiadau dethol isod swyddi yng Nghymru lle nad oedd gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg ond profwyd gwybodaeth yr ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

- **Cadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru;** swydd unigol, lansiwyd ymarferiad dethol ar 2 Tachwedd 2017. Detholwyd un ymgeisydd.
- **Barnwr Cyflogedig y Tribiwnlys Haen Gyntaf;** lansiwyd ymarferiad cenedlaethol ar 10 Mai 2017 gyda 65 swydd i gyd. Bu pump o'r ymgeiswyr a ddetholwyd yn llwyddiannus yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer swyddi yng Nghymru.
- **Cofiadur;** lansiwyd ymarferiad dethol cenedlaethol ar 9 Tachwedd 2016. Bu un ar bymtheg o'r ymgeiswyr a ddetholwyd yn llwyddiannus yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer swyddi yng Nghymru.
- **Barnwr Cylchdaith;** lansiwyd ymarferiad ar 23 Mawrth 2017 gyda 116.5 o swyddi. Bu deg o'r ymgeiswyr a ddetholwyd yn llwyddiannus yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer swyddi yng Nghymru.

Adnabu'r ymarferiadau dethol isod swyddi yng Nghymru lle nad oedd gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg a lle na phrofwyd gwybodaeth yr ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

- **Aelodau Cyfreithiol o Dribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru – Panel Cleifion Cyfyngedig;** roedd pum swydd ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a lansiwyd ar 12 Medi 2017. Penderfynwyd peidio â gofyn y cwestiynau Cymraeg yn ystod yr ymarferiad hwn. Dewisodd y JAC bum ymgeisydd.

Mae **Adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006** yn caniatáu i Lywodraeth Cymru geisio cymorth gan gyrrff cyhoeddus eraill. Darparodd y JAC gymorth i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr ymarferiad canlynol:

- **Aelodau Cyfreithiol o Dribiwnlys Anghenion Dysgu Arbennig Cymru sy'n derbyn ffi am eu gwasanaeth;** lansiwyd yr ymarferiad dethol, a gynhwysai bedair swydd, ar 5 Medi 2017. Nid oedd gofynion iaith Gymraeg, ac ni ofynnwyd cwestiynau ynghylch y cyd-destun Cymreig. Dewiswyd pedwar ymgeisydd.

Y Coleg Barnwrol

Cyfarfu Pwyllgor Hyfforddiant Cymru dair gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Ei brif flaenoriaeth oedd dadansoddi ac ystyried goblygiadau deddfwriaeth ddatganoledig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyfforddiant barnwrol a sut y gall y Coleg Barnwrol gynorthwyo'r farnwriaeth. Ar hyn o bryd mae'n cynhyrchu 3 bwletin y flwyddyn sy'n asesu cynnydd cyfraith ddatganoledig ac yn darparu gwybodaeth sydd ar gael i holl farnwriaeth Cymru a Lloegr. Cynhyrchir y bwletin yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Coleg Barnwrol, yn wirfoddol, wedi cymeradwyo ei bolisi iaith Gymraeg ei hun ar gyfer defnydd mewnol. Pwrpas y polisi yw egluro lle mae rhoi ystyriaeth i ddefnyddio dwy iaith yn briodol mewn perthynas â chyflenwi hyfforddiant barnwrol, ac ar gyfer deunyddiau cefnogol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw hyfforddiant barnwyr sy'n eistedd yng Nghymru wedi ei wahanu oddi wrth gylch gwaith cyffredinol y Coleg Barnwrol a bod y barnwyr hynny'n parhau i fynychu rhaglenni

hyfforddiant awdurdodaethol gyda'u cydweithwyr o Loegr. Yn sylfaenol bydd y rhaglen anwytho awdurdodaethol a'r rhaglen hyfforddiant ddilynol ill dwy yn cael eu cyflwyno yn Saesneg, ac eithriad fydd i'r Coleg allu cynnal hyfforddiant yn Gymraeg neu yn y ddwy iaith. Erbyn hyn, mae ardal ar wahân ar gyfer Cymru ar System Reoli Dysgu'r Coleg (LMS) lle bydd modd dewis rhwng y ddwy iaith pan fo hynny'n briodol ac yn ymarferol.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd GLITEM ddau ddigwyddiad ar gyfer Ynadon ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys. Eglurwyd sefyllfa gyfreithiol yr iaith yng Nghymru, a rhoddwyd diweddariad ar y protocol, y geiriau a'r derminoleg i'w harfer wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys. Defnyddiwyd sefyllfaoedd ffug mewn perthynas â'r deunydd *justice academy* a gyflwynwyd i staff y llynedd. Roedd y Coleg Barnwrol yn gallu darparu modiwl yn Gymraeg i un grŵp mewn cyfres o ddigwyddiadau undydd ar gyfer Mainc Cylchdaith a Rhanbarth Cymru a oedd yn rhoi diweddariad ar gyfraith ddatganoledig ym maes tai.

Mae Pwyllgor Hyfforddiant Cymru mewn cyswllt rheolaidd â Phwyllgor Cyngor Barnwyr Cymru (a gadeirir gan yr Arglwydd Brif Ustus). Cefnogodd y Coleg ei ddau Arweinydd Hyfforddiant i fynychu Cynhadledd Cymru'r Gyfraith, digwyddiad blynyddol sy'n cyflwyno datblygiadau cyfreithiol yng Nghymru, ac sy'n canolbwyntio ar heriau ymarferol beunyddiol ymarfer y gyfraith mewn amgylchedd Cymreig.

Pwyllgorau Ymgynghorol a phenodiadau i'r Ynadaeth

Yn y flwyddyn 2017 – 2018 adnabu Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor yng Nghymru ddwy ardal lle mae angen i ynadon fedru cyfathrebu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Yn ardal Dyfed Powys, sy'n cynnwys tair Ardal Gyfiawnder Lleol (LJA), adnabu'r Pwyllgor Ymgynghorol yr angen am saith ynad dwyieithog a phenodwyd pedwar. Yng Ngogledd Gymru, sy'n cynnwys tair LJA, adnabuwyd yr angen am un ar ddeg o ynadon sy'n siarad Cymraeg, allan o gyfanswm o 26 ynad yr oedd eu hangen. Penodwyd 26 ynad i gyd, wyth ohonynt yn siaradwyr Cymraeg.

3. Gohebiaeth

Meini prawf llwyddiant:

Atebir gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg yn unol â'r un amserlen â phob gohebiaeth arall.

Gohebiaeth ysgrifenedig

Yn ystod cyfnod yr Adroddiad hwn ni dderbyniodd Tîm Cefnogi Gohebiaeth Weinidogaethol yr MoJ unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg. Sefydlwyd cofnod i fonitro lefelau gohebiaeth Gymraeg a dderbyniwyd yn 2017–18 ac atgoffwyd staff eu bod i gofnodi unrhyw ohebiaeth Gymraeg a dderbynnir yn y gronfa ddata. Mae hyn yn cynnwys gohebiaeth mewn copi caled drwy'r post neu ohebiaeth electronig drwy'r e-bost. Yn ogystal, atgoffwyd staff sy'n ymdrin â gohebiaeth ar draws yr adran y dylid ateb unrhyw ohebiaeth Gymraeg a dderbynnir yn Gymraeg.

Cyfathrebu dros y ffôn

Mae'r Tîm Ymholiadau gan y Cyhoedd (sy'n rhan o ganolfan alw Gwasanaethau a Rennir ehangach a leolir yng Nghymru ac sy'n ymdrin â rhychwant eang o fusnes ar gyfer partion eraill) yn gyfrifol am Linell Ymholiadau gan y Cyhoedd yr MoJ (PEL) ar gyfer galwadau gan bobl sy'n ffonio'r MoJ yn unig. Derbynnir galwadau yn bennaf gan bobl sydd eisiau cysylltu â rhywun yn 102 Petty France, y pencadlys yn Llundain, megis GLITEM, Uned y Crwner neu swyddfa'r wasg. Galwadau yw'r rhain gan y cyhoedd a rhanddeiliaid allanol yn cynnwys adrannau eraill o'r llywodraeth.

Mae tîm PEL yr MoJ yn cynnwys dau gysylltwr ffôn ac arweinydd tîm. Nid yw'r cysylltwyr ffôn ar y switsfwrdd PEL yn darparu cyngor na gwybodaeth am yr MoJ ond yn hytrach byddant yn trosglwyddo galwadau i'r lle addas neu'n darparu manylion e-bost ar gyfer blychau e-bost swyddogaethol.

Trwy rif ffôn yn Llundain y mae'r tîm PEL yn derbyn galwadau. Nid yw'r MoJ yn cynnig dewisiadau iaith i'r rhai sy'n cysylltu dros y ffôn; fodd bynnag, pe bai rhywun yn dymuno siarad yn Gymraeg yn unig, gall y PEL ymdrin â'r cais gan bod tîm ehangach y ganolfan alw Gwasanaethau a Rennir yn cynnwys 20 siaradwr Cymraeg rhugl.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ni cheisiodd unrhyw un gyfathrebu â'r MoJ yn Gymraeg dros y ffôn. Hyd yn oed pan hysbyswyd y galwyr mai yn Ne Cymru y mae'r tîm ateb, nid ymatebodd y galwyr drwy geisio cael sgwrs yn Gymraeg. Yn ystod y cyfnod hwn nid yw'r MoJ wedi derbyn unrhyw gwynion â'n ddiffyg dewis Cymraeg mwy ffurfiol.

4. Cyfarfodydd

Meini prawf llwyddiant:

Mae staff yn deall pa bryd y mae angen gwasanaeth cyfieithu.

Nid yw'r MoJ yn cadw cofnod canolog o ddigwyddiadau a gynhelir ar draws ei holl feysydd gwaith gyda golwg ar gyfarfodydd yn Gymraeg lle gwnaed trefniadau penodol i hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae canllawiau ar fewnwyd yr MoJ i gynorthwyo staff i adnabod anghenion a chyfleusterau cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau gyda'r cyhoedd yng Nghymru.

Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg yr MoJ

Mae'r MoJ yn parhau i redeg grŵp ehangach o Gydlynwyr Iaith Gymraeg sy'n gweithredu fel Cydlynwyr Iaith Gymraeg ar gyfer holl rychwant ein meysydd busnes. Mae'r grŵp yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Dyma gylch gwaith y grŵp:

- Canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â chyflenwi ein Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol a'r Cynllun Iaith newydd, diwygiedig
- Rhannu enghreifftiau o'r ymarfer gorau i helpu i godi ymwybyddiaeth ac atgynhyrchu syniadau
- Darparu fforwm i aelodau drafod materion sy'n dod i'r amlwg ynglŷn â'r Gymraeg
- Darparu cydgefynogaeth i Gydgyssylltwyr Iaith Gymraeg yr MoJ a chynorthwyo i oleuo polisi iaith Gymraeg yn y dyfodol

Gall aelodau ddefnyddio'r grŵp i rannu gwybodaeth a syniadau i wella penderfyniadau. Lle mae pryder neu gamddealltwriaeth ynghylch polisi iaith Gymraeg a gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y Cydlynwyr yn ymdrin â'r rhain ar ran yr aelodau mewn modd cymesur i sicrhau datrysiad boddhaol.

Yn y cyfarfod ym mis Tachwedd 2017, yr oeddem yn falch o groesawu cynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd Iaith yn siaradwr gwadd. Gweithredwyd ar bob pwynt gweithredu a godwyd yn y cyfarfod. Yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2018 cafwyd sgwrs ar benodiadau barnwrol yng Nghymru gan gynrychiolydd o'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Ymunodd nifer o aelodau newydd â'r grŵp yn y ddau gyfarfod, ac mae hynny'n arwyddo cynnydd graddol yn y diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar draws yr MoJ.

Mae'r grŵp hefyd yn cynnal fforwm drafod rithiol *ad hoc* i drafod materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg rhwng cyfarfodydd er mwyn rhannu gwybodaeth, yn enwedig ynglŷn â pha bryd y geill bod angen gwasanaeth cyfieithu.

Fforwm Ymgysylltu Tri-Lat Cymru – Llywodraeth Cymru

Mae hwn yn fforwm rheolaidd gyda chynrychiolaeth ar draws y sefydliad (Polisi, diwygio GLITEM, diwygio MoJ a GLITEM Cymru) i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, a darparu pwynt cyswllt unigol ar eu cyfer. Mae GLITEM Cymru yn darparu ysgrifenyddiaeth yn y man cyfarfod yng Nghaerdydd. Roedd materion a drafodwyd yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2017 yn cynnwys diweddariad ar ddiwygio GLITEM ac ystyriaethau ynglŷn â datganoli.

5. Hunaniaeth gorfforaethol

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y defnyddir y Gymraeg.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yr MoJ wedi ymdrin â gweithgarwch drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddi-lol yn ôl ei arfer. Meysydd polisi'r MoJ sy'n gyfrifol am benderfynu cyhoeddi dogfen yn Gymraeg neu beidio, yn unol â'r arweiniad yng Nghynllun yr MoJ, ac mae tîm dylunio canolog yr MoJ – Design102 – yn defnyddio Uned Iaith Gymraeg GLITEM ar gyfer pob cyfieithiad sy'n angenrheidiol ar gyfer meysydd gwaith yr MoJ. Mae canllawiau brand newydd yr MoJ yn darparu cyngor ynghylch defnyddio fersiynau Cymraeg a dwyieithog o logo'r MoJ. Yn ystod 2018 - 19 bydd Design102 yn adolygu'r canllawiau ac yn creu fersiynau Cymraeg neu ddwyieithog o dempledi gyda'r brandio newydd, pan nad ydynt yn bod eisoes.

6. Cyhoeddiadau a ffurflenni

Meini prawf llwyddiant:

a) *Cysondeb yn y ffordd y defnyddir y Gymraeg.*

b) *Cynhyrchir pob dogfen, a gyhoeddir mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg, i'r un safon a chan barchu'r un amserlen.*

Pan fydd tîm dylunio'r MoJ, DESIGN102, yn dylunio dogfen yn Saesneg y mae gofyn ei chyfieithu i'r Gymraeg, bydd DESIGN102 yn darparu'r ffeiliau dylunio i Uned Iaith Gymraeg GLITEM, gan eu galluogi i fformadu'r fersiwn Gymraeg yn yr un arddull. O ganlyniad i gymeradwyo dogfen yn hwyr yn y dydd neu newidiadau munud olaf i ddogfen, neu faterion ynglŷn â fersiynau diwygiedig o rai dogfennau Saesneg, nid yw'n bosib cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd bob tro, er y cyhoeddir y fersiwn Gymraeg cyn gynted ag y bo modd wedi cyhoeddi'r fersiwn Saesneg (ac yn sicr o fewn 10 diwrnod gwaith yn unol â'n cynllun newydd). Cynhyrchir pob dogfen, a gyhoeddir mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg, i'r un safon.

Ffurflenni a chanllawiau amlosgi

Cyflwynodd y Llywodraeth ffurflenni cais amlosgi diwygiedig drwy Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygiadau) 2017 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2018. Roedd y rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth, am y tro cyntaf, ar gyfer cyhoeddi pob ffurflen amlosgi yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Erbyn hyn cyhoeddwyd fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog o bob un o'r deunaw ffurflen amlosgi a'r canllawiau cysylltiedig (ar 20 Ebrill 2018). Gellir gweld y rhain yma: <https://www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-ac-arweiniad-ar-amlosgi>

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer trin y fersiynau dwyieithog (neu Gymraeg) o'r ffurflenni hyn, a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yr un fath â'r fersiynau Saesneg o'r ffurflenni. Mae'r ffurflenni amlosgi naill ai'n geisiadau amlosgi neu'n ddogfennau sy'n cefnogi cais i amlosgi a bydd yr Awdurdodau Amlosgi yn eu derbyn.

Uned Iaith Gymraeg GLITEM

Uned Iaith Gymraeg GLITEM sy'n ymgymryd â'r rhan fwyaf o ddigon o'n baich cyfieithu. Rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 cyfieithodd yr Uned Iaith Gymraeg 24 dogfen ar gyfer Pencadlys y MoJ ar gost o £10,756.

7. Datganiadau i'r wasg

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y defnyddir y Gymraeg.

Ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau i'r wasg yn Gymraeg yn ystod cyfnod yr adroddiad. Ers hynny rydym wedi cyhoeddi un ar ein Cynllun Iaith Gymraeg newydd ar 28 Mehefin 2018.

8. Gwefan

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y defnyddir y Gymraeg.

Mae'r MoJ yn gyfrifol am benderfynu pa gynnwys 'adrannol a pholisi' ar wefan GOV.UK y mae angen ei gyfieithu; gan drefnu cyfieithu o'r radd flaenaf; a sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yn gywir ac yn gyfredol. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu prif ddalen wybodaeth Gymraeg.

Mae Adran Dechnoleg y MoJ yn ymdrin â thechnoleg yn yr iaith Gymraeg fel a ganlyn:

- Wrth inni ddatblygu a chyflenwi systemau a chynhyrchion TG newydd neu wrth ddiweddarau'r hen rai, byddwn yn asesu'r gofynion ieithyddol gyda golwg ar y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru
- Byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg cyn belled ag y bo hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol
- Pan fyddwn yn datblygu neu'n caffael systemau technoleg yr MoJ byddwn yn ystyried Safonau a Chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer Meddalwedd Dwyieithog
- Y maes busnes perthnasol sy'n gyfrifol am gynnwys y llwyfannau TG (o'u cyferbynnu â'r dechnoleg gysylltiedig).

Cymhwysir yr egwyddorion hyn at bob contract newydd. Mae Adran Ddigidol a Thechnoleg yr MoJ yn barod bob amser i ystyried unrhyw ofynion penodol gan yr Uned Iaith Gymraeg.

9. Gwasanaethau a gyflenwir ar ran yr MoJ gan bartïon eraill

Meini prawf llwyddiant:

Sicrhau dull cyson o ymdrin â'r ymrwymïadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae telerau ac amodau contract safonol cyfredol yr MoJ yn cynnwys cymalau sy'n mynnu bod cyflenwyr yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cynllun Iaith Gymraeg 'fel petai hwy fuasai'r Awdurdod'.

Dyma'r contractau penodol a osodwyd yn 2017-18 sy'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas â'r Gymraeg:

Contract Cyngor Cyfreithiol Sifil (CLA) (cyhoeddwyd ym mis Medi 2017):

Mae hwn yn llywodraethu'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol o bell yn y categorïau hyn: teulu, dyled a thai, camwahaniaethu ac addysg. Mae'n cynnwys y cymal canlynol. *"Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol (yn cynnwys pob deddfwriaeth yn ymwneud â Chymorth Cyfreithiol). Lle yr ydych yn darparu Gwaith Contract i Glientiaid sy'n dewis siarad Cymraeg, dylech sicrhau ei fod ar gael a'i fod yn ddealladwy i'r cyfryw Glientiaid yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993".*

Contract Llinell Dalu Genedlaethol:

Rhoddyd y contract hwn ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r gofynion gwasanaeth yn cynnwys darparu llinell ffôn benodol yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda gweithwyr sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Darperir y gwasanaeth talu awtomataidd hefyd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gwasanaethau Llety a Chefnogaeth Mechnïaeth (BASS):

Mae ein contract (Chwefror 2018) gyda NACRO, yr elusen atal troseddau, yn anelu at ddarparu gwasanaeth atebol sy'n amlhau argaeledd llety ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth risg-isel ar

fechnïaeth a charcharorion a ryddhawyd ar Gyrrffyw Cartref (HDC) a fyddai fel arall yn cael eu cadw yn y ddalfa.

Mae BASS yn osgoi unrhyw ddefnydd diangen o garchardai ar gyfer pobl risg isel a chanolig ar fechnïaeth a chytundebau trwyddedu eraill ac mae'n lleihau'r effaith negyddol ar fywyd teulu, cyflogaeth, a thair drwy ddarparu llety ynghyd â chefnogaeth addas. Mae'n darparu llety mewn 10 eiddo yng Nghymru. Cynhwyswyd yn y ddogfennaeth gaffael fanylion Cynllun Iaith yr MoJ, a'r gofyniad i'r rhai sy'n darparu'r gwasanaeth gydymffurfio ag egwyddorion y cynllun.

Mae'r contractau gwasanaethau iaith yn parhau i ddarparu ar gyfer cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i'r/o'r Gymraeg yr un fath â phob iaith arall y darperir ar ei chyfer. Cynhwyswyd yr iaith Gymraeg yn y fanyleb ar gyfer pob contract fel un o'r ieithoedd y mae gofyn i'r cyflenwyr ddarparu cyfieithwyr proffesiynol sy'n ei medru.

10. Dyrannu grantiau

Meini prawf llwyddiant:

Dyrennir grantiau yn unol â'r ymrwymïadau yn y Cynllun

Bydd gofyn i unrhyw sefydliad sy'n cyflwyno cais am nawdd neu gymorth grant ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru, egluro yn eu cais, lle mae hynny'n briodol, sut y maent yn bwriadu darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg ynghyd ag yn Saesneg. Yna byddir yn ymgorffori hynny'n un o'r amodau ariannu.

Mae Bwrdd Grantiau HMPPS/MoJ yn goruchwyllo'r broses ddyrannu grantiau, yn cynnwys y cyfanswm sydd ar gael ac alinio'r grantiau gyda blaenoriaethau strategol yr adran. Hysbysebwr mwyafrif y grantiau drwy wefan gaffael yr MoJ, *Emptoris*. Er mwyn goleuo ymgeiswyr posibl, bydd y ddogfen ddisgrifio sy'n canlyn pob hysbyseb yn amlinellu a yw ystyriaethau Deddf yr Iaith Gymraeg yn berthnasol ai peidio. Pan ddyrennir grant, ac os yw hynny'n briodol, hysbysir derbynnydd y grant o ofynion HMPPS/MoJ y disgwylir iddo gydymffurfio â hwy, yn cynnwys lle mae Cynllun Iaith Gymraeg yr MoJ neu'r HMPPS yn gofyn am gydymffurfio â gofynion perthnasol Deddf yr Iaith Gymraeg.¹

i) Manylion grant:

Dyrannodd HMPPS grant o £202,958 i'r Ymddiriedolaeth Anableddau yn ystod 2017-18 ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth Anableddau yn elusen genedlaethol amlwg sy'n darparu cefnogaeth arbenigol yn y gymuned a chefnogaeth breswyl ar gyfer oedolion sydd wedi dioddef niwed i'w hymennydd, sydd ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu cymhleth neu sy'n awtistig.

ii) Y fframwaith grantiau o 2017 ymlaen

Yn y cyfnod 2017 -18 defnyddiwyd cyllideb grant HMPPS (£3.5m) i barhau i gefnogi grantiau strategol a defnyddiwyd y gweddill (oddeutu £1.7m) i dargedu syniadau newydd ac arloesol sy'n cyfrannu at amcanion cyffredinol HMPPS a blaenoriaethau penodol.

Rhoir gwybod am y rhaglen grant i bob Menter Wirfoddol, Gymunedol a Chymdeithasol (VCSE) – sy'n sefydliadau Trydydd Sector – yng Nghymru a Lloegr.

Mae cyllid wedi ei ddyfarnu i nifer o sefydliadau VCSE i gefnogi amcanion strategol, profi syniadau newydd ac arloesol a datblygu capasiti mewn sefydliadau. Mae'r prosiectau'n cynnwys y canlynol:

- Radio Carchar, ffynhonnell wybodaeth allweddol i droseddwr am faterion sy'n effeithio arnynt.

¹ Yn 2015 ceisiodd, a derbyniodd, Rhaglen Effeithlonrwydd Grantiau Swyddfa'r Cabinet ganiatâd gan bob un o adrannau'r llywodraeth i gyhoeddi Cofnod Grantiau'r Llywodraeth. Cyhoeddir y cofnod ar data.gov.uk

- Ymddiriedolaeth Koestler, sy'n annog gweithgarwch celfyddydol ac yn codi ymwybyddiaeth o gelf gan droseddwr yn gyffredinol.
- Cymdeithas Genedlaethol Ymwelwyr Carchar, sy'n cefnogi ymwelwyr â charchardai i ddarparu gwasanaeth hanfodol ar gyfer troseddwr sy'n amddifad o gefnogaeth allanol.
- *Prisoners Abroad*, sefydliad sy'n cefnogi adsefydlu troseddwr sy'n dychwelyd i'r DU wedi treulio cyfnod yn y carchar mewn gwlad dramor.
- Y Samariaid, sy'n darparu cefnogaeth allweddol ar gyfer troseddwr hunanleiddiol neu sydd mewn peryg o hunanannafu ac sy'n cefnogi gwaith cystodaeth diogelach mewn carchardai.
- Cyngor ar Bopeth, sy'n darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer ddioddefwyr camweinyddiad cyfiawnder.

Mae'r tîm Polisi Dioddefwyr a Thystion wedi dyrannu grantiau o £4.0m i dderbynwyr yng Nghymru, gan ddefnyddio hidlydd cyfeiriadau, i gyflenwi gwasanaethau cefnogol ar gyfer dioddefwyr. Dyfarnodd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid £4.6m i dimau troseddwr ifanc.

Mae'r canllawiau a'r amserlen arfathedig ill dau yn cymryd gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg i ystyriaeth.

iii) Diweddariad ar y dyraniadau / gweithgareddau a grybwyllwyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd

Mae Rhaglen Mabwysiadwyr Cynnar 2016-17 yn cael ei gwerthuso. Golygai hyn fod HMPPS a'r MOJ yn darparu rhaglen grantiau ar gyfer sefydliadau sector gwirfoddol, yn cynnwys elusennau a mentrau cymdeithasol, sy'n gweithio i leihau aildroseddu.

11. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg

Meini prawf llwyddiant:

Sicrhau bod y Cynllun yn ateb y gofyn.

Cydlynnydd Cynllun Iaith Gymraeg yr MoJ oedd yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu Cynllun yr MoJ. Agwedd allweddol ar y rôl yw sicrhau y datblygir Cynllun yr MoJ ac y'i gweithredir yn briodol ym meysydd busnes corfforaethol amrywiol yr MoJ. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor a chyfarwyddyd ac ymateb i geisiadau am wybodaeth neu eglurder mewn perthynas â pholisi a gweithrediad yr MoJ gyda golwg ar y Gymraeg. Ni dderbyniodd Cydlynnydd Cynllun yr MoJ unrhyw gwynion ffurfiol mewn perthynas â gweithredu Cynllun yr MoJ yn 2017-18. Cyhoeddwyd Cynllun diwygiedig yr MoJ ym mis Mehefin 2018 a byddwn yn adrodd ar y cynllun yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf am y cyfnod 2018-19 i adlewyrchu ein cynnydd parhaus yn ein tri maes corfforaethol allweddol, sef datblygu polisi, recriwtio a chyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd.



© Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oddieithr pan nodir fel arall. Gellir gweld y drwydded yma: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn destun hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau gwahanol ar gais gan y Gwasanaethau Dadansoddol. Cysyllter â: MOJWLSrevision@justice.gsi.gov.uk